



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Profi
Olrhain
Diogelu

Test
Trace
Protect



Crynodeb o'r Strategaeth Profi

Mawrth 2021

Strategaeth profi

Mae profion yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth atal trosglwyddiad COVID-19 ledled Cymru. Gall profi gyfrannu at leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac, ers i'r strategaeth ddiwethaf gael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020, mae technolegau profi newydd wedi dangos bod modd profi ar raddfa lawer mwy ac yn llawer amlach a chyflymach nag erioed o'r blaen.

Bydd profi yn parhau i chwarae rhan bwysig ochr yn ochr â'r brechlyn er mwyn ein helpu i achub bywydau yn ystod 2021 a'r tymor hwy.

Strategaeth

Nod ein strategaeth profi yw lleihau neu liniaru'r niweidiau hyn lle bynnag y bo modd:

Niwed yn sgil COVID-19 ei hun	Niwed yn sgil gorlethu'r GIG a'r system gofal cymdeithasol
Niwed yn sgil llai o weithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19	Niwed yn sgil camau gweithredu cymdeithasol ehangach/ cyfyngiadau symud

Blaenoriaethau

Niwed yn sgil COVID-19 ei hun	Profi i wneud diagnosis	Cefnogi gofal clinigol y GIG	Mae angen inni ganfod cleifion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus cyn gynted â phosibl, yn enwedig y rhai sy'n mynd i'r ysbyty, fel y gallant gael triniaeth benodol ar gyfer COVID-19. Profi cleifion pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty; 5 diwrnod ar ôl eu derbyn; ac o fewn 3 diwrnod i dderbyn wedi'i gynllunio.
Niwed yn sgil gorlethu'r GIG a'r system gofal cymdeithasol	Profi i ddiogelu	Amddiffyn ein pobl fwyaf agored i niwed	Mae COVID-19 yn her mewn lleoliadau caeedig fel ysbytai, cartrefi gofal a charchardai oherwydd y gall fod yn anodd rheoli lledaeniad yr haint ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Gall unigolion sydd wedi'u heintio fynd i mewn i leoliadau caeedig fel preswylwyr, ymwelwyr neu aelodau o staff sydd â symptomau neu heb symptomau. Dylai staff sydd â symptomau, ble bynnag y maent yn gweithio, hunanynysu a gofyn am brawf. Mae'n bosibl y gall profi staff asymptomatig sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed, yn enwedig mewn lleoliadau caeedig, ganfod unigolion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus a allai beri risg fel arall. Profion rheolaidd, asymptomatig ar: • Staff y GIG • Staff cartrefi gofal • Staff byw â chymorth • Staff ysgolion arbennig • Staff gofal cartref • Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal preswyl a chymorth eraill • Carcharorion • Ymwelwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld
Niwed yn sgil llai o weithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19	Profi i ddarganfod	Targedu achosion a gwella gwyliadwriaeth gymunedol	Mae adnabod ac ynysu achosion o COVID-19 yn y gymuned yn lleihau trosglwyddiad yr haint, yn cefnogi'r broses olrhain cysylltiadau ac yn helpu i arafu neu atal lledaeniad y clefyd. Profi unigolion â symptomau drwy: • Safleoedd Profi Rhanbarthol – cyfleusterau profi drwy ffenestr y car • Safleoedd Profi Lleol – cyfleusterau profi ar droed • Unedau Profi Symudol – cyfleusterau hyblyg i'w gwneud hi'n haws i bobl gael prawf ac i ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae'r angen mwyaf • Profion cartref – profion a gaiff eu hanfon at bobl drwy'r post er mwyn iddynt eu cynnal gartref Profi unigolion heb symptomau drwy ein fframwaith profi cymunedol i ddod o hyd i achosion: • dan arweiniad lleol • yn seiliedig ar dystiolaeth o wylidwriaeth a gwybodaeth leol • yn defnyddio asesiadau sy'n seiliedig ar risg i dargedu profion • yn integreiddio â threfniadau profi lleol eraill • yn canolbwyntio ar feysydd angen

Niwed yn sgil llai o weithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19	Profi i gynnal	Cefnogi addysg	Rydym yn ystyried a allai profion asymptomatig i ddod o hyd i achosion a chysylltiadau posibl (yn lle hunanynysu am 10 diwrnod) helpu dysgwyr ac athrawon i aros mewn gwaith neu addysg. Mae dod o hyd i achosion yn gyflymach yn golygu bod yr haint yn lledaenu llai.
Niwed yn sgil llai o weithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19		Nodi cysylltiadau achosion positif i gynnal gwasanaethau allweddol	Rydym yn gweithio gyda sefydliadau i gyflwyno profion rheolaidd mewn gweithleoedd i ddod o hyd i achosion a helpu i gadw gwyliadwriaeth. Rydym hefyd yn ystyried a allai profi unigolion asymptomatig sydd wedi dod i gysylltiad ag achosion positif eu galluogi i aros yn y gwaith, yn ddiogel, yn hytrach na hunanynysu am 10 diwrnod Ar hyn o bryd rydym yn treialu ac yn gwerthuso'r dull hwn, er enghraifft gyda Heddlu De Cymru. Os bydd yn effeithiol, bydd yn golygu y gallai nifer y bobl nad ydynt yn y gwaith oherwydd eu bod yn hunanynysu leihau, gan olygu ei bod hi'n haws cynnal gwasanaethau allweddol. Bydd y penderfyniad ynghylch a ellir neu a ddylid profi cysylltiadau yn ddyddiol fel hyn yn dibynnu ar b'un a ellir dilysu canlyniadau profion ai peidio, a yw'r unigolion dan sylw yn gweithio gyda phobl agored i niwed, a chanfyddiadau cynlluniau peilot presennol. Bydd cynlluniau peilot yn rhoi mwy o wybodaeth inni a fydd yn sail i'n penderfyniadau terfynol. Hefyd, mae angen inni werthuso'r dull hwn yng ngoleuni'r wybodaeth bod yr amrywiolyn newydd yn fwy trosglwyddadwy.
Niwed yn sgil camau gweithredu cymdeithasol ehangach/cyfyngiadau symud	Profi i alluogi	Hyrwyddo llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol	Wrth inni symud ymlaen gyda chyflenwi'r brechlyn a thuag at nifer is o achosion o'r feirws, byddwn yn ceisio gweld sut y gall profion fod o gymorth pellach i ni ddychwelyd i normalrwydd. Gall cynlluniau profi priodol ac effeithiol gynnig mesurau diogelu ychwanegol ochr yn ochr â'r brechlynnau.